O dan y cynllun Creu Coetir Glastir, mae penderfynu pa dir sy'n addas ar gyfer plannu yn cael ei wneud yn ôl dosbarthiad yr holl diroedd sydd ar gael fel 'coch' (anaddas), 'ambr' (addas o bosib), neu 'gwyrd' (addas). Mae gweithrediad cyflym Glastir wedi golygu bod llawer o diroedd wedi eu dosbarthu fel rhai sy'n anaddas ar gyfer plannu. Gan na chafwyd amser i wneud arolygon llawn, dewisodd y cyrff a ymatebodd, ac yn arbennig Gyngor Cefn Gwlad Cymru,

ddynodi ardaloedd eang fel rhai na ddylid plannu arnynt. Fodd bynnag, mae'r map plannu yn awr yn cael ei adolygu mewn ymgais i ail-ddynodi rhannau o'r ardaloedd hyn fel rhai 'ambr'. Yn y tymor hwy cynllunnir cynhyrchu offer mapio ymatebol mwy sensitif.

Pan ofynnwyd i Asiantwyr Coetir am effeithiolrwydd tebygol Glastir a'r ffordd orau o argymhell tirfeddianwyr i blannu coed ar eu tir, disgrifiasant y system fapio fel un oedd yn cyfyngu defnydd tir, a hyn yn gwneud y targed o 100,000 hectar yn "ffansiol". Fodd bynnag, ar ôl cymharu'r map presennol â'r ceisiadau hyd yn hyn, daeth Comisiwn Coedwigaeth Cymru i'r casgliad nad y mapiau oedd y rhwystr pennaf. Mae ardaloedd yn dal ar gael sydd wedi eu henwi fel rhai addas ar gyfer plannu ac sydd mewn manau amaethyddol ymylol, uwchdir neu leoliadau tir-rhedyn – a gynigiwyd gan y Grŵp Defnydd Tir a Newid Hinsawdd fel y lleoliadau gorau ar gyfer plannu – ond nad ydynt eto wedi derbyn grantiau Glastir ar gyfer creu coetir.

Mae swyddogion Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi dod i'r casgliad y gallai, felly, fod diffyg gwybodaeth ymhlith y rhai a fedrai dderbyn grantiau. Mae peth cefnogaeth i'r farn hon yn yr arolwg a wnaed yn 2009 gan y Comisiwn ar ffermwyr. Datgelodd nad oedd 23 y cant o'r ymatebyddion yn ymwybodol o'r cynlluniau grant coetir oedd yn bodoli cyn hyn ac y gellid, efallai, berswadio 28 y cant i wneud cais am grant yn y dyfodol petai ganddynt "fwy o wybodaeth am yr hyn sydd ar gael". Yn y cyfamser, cytunodd 83 y cant o ymatebyddion â'r datganiad: "Nid oes gennyf ddigon o wybodaeth am yr hyn y dylwn i fod yn ei wneud â choetir ar fy fferm".

Ymhlith y rhwystrau eraill posib a enwid yn arolwg 2009 yr oedd prinder amser i reoli coetiroedd fferm (a enwid gan 63 y cant o'r ymatebyddion), y gost waharddol o reoli'r coetir (48 y cant), a'r ffaith nad yw "coed yn werth digon i'w cynaeafu" (39 y cant).

Amlygodd Asiantwyr Coetir amharodwydd ymhlith ffermwyr i droi tir amaeth da yn goetir. Fodd bynnag,



ymddengys y rhan fwyaf o ffermwyr yn hapus i blannu ar dir nad yw wedi ei wella. I hyn ddigwydd, y sbardun pwysicaf ar gyfer plannu, heb amheuaeth, yw enillion economaidd, gyda symud rhwystrau o'r neilltu - yn arbennig y rhai biwrocraidd – yn ail ffactor gritigol.

Yn yr Alban mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn helpu i symud y fath 'rwystrau' drwy ysgwyddo'r dasg o blannu coed o'r dechrau i'r diwedd. Yn union ar ôl i ffermwr fynegi parodrwydd i blannu ardal o dir, mae'r Comisiwn yn cynnig cymryd y tir hwnnw ar les oddi wrth y ffermwr ynghyd â darpariaeth addas ar gyfer mynediad. Wedyn mae'r Comisiwn yn plannu'r tir ac yn gofalu am yr ardal am rhwng 10 a 15 mlynedd tra'n talu rhent i'r ffermwr. Ni fyddai'r cynllun yn gweithio i lawer o ffermwyr gan y byddent yn colli eu cymhwyster ar gyfer derbyn Taliad Sengl PAC. Fodd bynnag, gallai fod o ddiddordeb i rai perchnogion nad ydynt yn ffermio.

Ond y gwir yw, bod taliadau cymhellant, yn arbennig o gofio'r prisiau presennol am ŵyn a gwartheg yn annhebygol o berswadio llawer o ffermydd i blannu coetiroedd ar dir sydd wedi ei wella. Rhaid defnyddio'r adnoddau sydd ar gael, felly, i berswadio ffermwyr i blannu ar dir nad yw wedi ei wella ar eu ffermydd.

I'r cynllun Creu Coetir Glastir fod yn effeithiol, mae'r swyddogion sy'n creu'r cynllun yn pwysleisio "elfen etifeddiaeth" coetiroedd. Maent yn gweld yr angen i berswadio ffermwyr *ifainc* i sylweddoli bod iddynt fanteision economaidd ac amgylcheddol yn y tymor hir. Mae'r lleihad yn y defnydd o goed cartref ar ffermydd ar gyfer ffensio a choed tân wedi amharu ar ansawdd y pren sydd ar gael, a'r cysylltiad rhwng llawer o ffermwyr a'u coedwigoedd wedi mynd i golli. Bydd argyhoeddi ffermwyr ei bod yn fuddiol iddynt ymgyfrannu mewn gweithgaredd coetir, felly, yn dasg herfeiddiol. Eto, os na ellir cwrdd â'r her hon, mae'r tebygrwydd y bydd ffermwyr yn ymrwymo i gontract coetir Glastir 15 mlynedd mewn perygl o fod yn waharddol, yn arbennig o gofio mai prin, yn y tymor byr,

fydd enillion economaidd coetiroedd newydd.

Mae'r holl rwystrau hyn, i raddau, yn egluro pam na ddangoswyd llawer o ddiddordeb mewn cynlluniau Creu Coetir Glastir yn ystod dwy flynedd gyntaf ei weithrediad, hyd ddiwedd Mai 2012. Yn ystod y cyfnod hwnnw roedd 227 o brosiectau plannu, y rhoddwyd tâl amdanynt, yn gorchuddio 666 hectar - 2.83 hectar y prosiect ar gyfartaledd. Hefyd, cymeradwywyd 140 o geisiadau eraill yn ystod y cyfnod, yn gorchuddio 516 hectar ychwanegol, ond nid yw'r rhain eto wedi eu plannu. Er mai araf yw'r broses mewn perthynas â'r targed 100,000 hectar mewn 20 mlynedd, mae'n dal yn welliant ar yr hyn a gyflawnwyd o dan gynlluniau blaenorol Gwell Coetiroedd i Gymru a Tir Gofal.

NODIADAU

- 11 Mae'r Cod yn rhoi sicrwydd i brynwyr a gwerthwyr bod y cyfrifyddu yn gywir, a'r carbon yn ddiogel yn y tymor hir. Mae cofrestr gysylltiol yn sicrhau na fydd ardaloedd yn cael eu dwbl werthu.
- 12 Comisiwn Coedwigaeth Cymru: *Arolwg o ffermwyr â choetir ar eu tir*, 2009.
- 13 Cynllun grantiau Comisiwn Coedwigaeth Cymru a ragflaenodd Glastir oedd Gwell Coetiroedd i Gymru. Cafodd ei deilwra i gyflenwi Strategaeth Goetir 2009 Llywodraeth Cymru, *Coetiroedd i Gymru*.
- 14 <http://www.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/glastirhome/?lang=en>

ASTUDIAETH ACHOS —

TANWYDD A CHARBON

Upper Nant-y-Felin, Bwlch ger Aberhonddu

Fferm ddefaid a biff ucheldir 80 hectar yw Upper Nant-y-Felin ym Mwlch ger Aberhonddu, yn cael ei ffermio gan un o ffermwyr ifainc mwyaf blaengar Cymru, Matthew Vaughan sy'n 27 mlwydd oed. Mae wedi bod yn gyfan gwbl organig am dair blynedd ac mae ganddo 500 o famogiaid ac 20 o fuchod sugno


Er mwyn gwneud defnydd llawn o lechweddau serth rhedynog y fferm mae Matthew wedi plannu cyfuniad o tua 3,000 o goed pren caled a meddal cymysg, wedi adfer 6,000 metr o wrychoedd ac wedi creu dwy berllan newydd drwy Tir Gofal. Mae coed y fferm eisoes wedi dod â manteision ariannol arwyddocaol. Mae tair stôf llosgi coed Matthew yn cael eu bwydo'n gyfan gwbl gan ei bren ei hunan ac yn cynhesu'r holl ffermdy. Mae hyn yn arbed cannoedd o bunnoedd y flwyddyn. Mae Matthew hefyd yn cynhyrchu ei fachau cyll ei hunan, sy'n cael eu defnyddio wrth blygu gwrychoedd.

“Mi dybiaf fod ôl troed carbon yn mynd i ddod yn fwyfuywysig yn y dyfodol”, meddai. “Trwy blannu coed gallaf greu cynefin mwy amrywiol, lleihau'r ôl troed carbon ac yn y tymor hir, leihau dibyniaeth y fferm ar ddefnyddiau pren y mae angen eu prynu i mewn. Mae'n cymryd amser i goed sefydlu eu hunain, ac mae hynny'n fwy fyth o reswm dros ddechrau'n awr”.



“Mae Grantiau Creu Coetir Glastir o hyd at £9,000 yr hectar dros 15 mlynedd, ynghyd â £3.15 y metr am ffensys newydd, yn edrych yn gyfle gwych i ffermwyr. Rwyf i'n sicr yn awyddus i blannu rhai o'r llethrau rhedynog, serth iawn yn Upper Nant-y-Felin, i wneud y defnydd gorau posib o dir sy'n gyfyng ei ddefnydd ar gyfer amaethyddiaeth.”

Ffynhonnell: Coed Cadw. Coed ar gyfer ffermydd yng Nghymru, 2011



EFFAITH DIWYGIO PAC

Saif creu a rheoli coetir ar ymylon y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) gan nad oes gan yr Undeb Ewropeaidd bwerau ffurfiol dros goedwigaeth. Er hynny, ariennir Glastir (fel Coetiroedd Gwell i Gymru a ddaeth o'i flaen) gan ffynonellau Ewropeaidd. Golyga hyn ei fod yn dal ynghlwm wrth amcanion polisi PAC a'i feini prawf ariannu cysylltiedig.

Tra bo Glastir wedi ei ddylunio i weithredu o fewn cyd-destun y polisi cyfredol, mae trafodaethau'n dal i fynd ymlaen ar gynnwys y PAC newydd, sydd i fod i ddod yn weithredol o 1 Ionawr 2014. Yn ôl yr arwyddion cynnar, fel y'i gwelir ar hyn o bryd, nid yw'r diwygiadau arfaethedig yn argoeli'n dda ar gyfer creu coetir.

Mae PAC, sy'n cyfrif am tua 50 y cant o gyllideb yr UE, wedi ei rannu'n ddau gategori, y cyfeirir atynt fel Piler 1 a Philer 2. Cyfeirir at wariant o dan Reoliad Datblygu Gwledig fel Piler 2, a'i fwriad yw cefnogi cymunedau gwledig mewn gweithgareddau datblygu ac arallgyfeirio. Mae'r ystod o fesurau'n cynnwys: amaeth-amgylchedd (Glastir yng Nghymru), addasu ffermydd, coedwigaeth, prosesu a marchnata cynnyrch amaethyddol, hyfforddi a datblygu, a rhoi cymorth i ardaloedd llai ffafriol. I sicrhau arian Ewropeaidd ar gyfer mesurau Piler 2 mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau (neu ranbarthau o'u mewn) baratoi Cynllun Datblygu Gwledig.

O dan y newidiadau arfaethedig, er y bydd o leiaf saith y cant o'r tir ar bob fferm yn cael ei ddynodi fel gwarchodfa ecolegol, cynigir hefyd y dylai'r gyfran o dir sy'n cael ei ddefnyddio fel glaswelltir parhaol (tir sydd wedi bod yn laswelltir am bum mlynedd a mwy) gael ei gadw ar lefel daliad fferm yn hytrach nag ar lefel aelod-wladwriaeth. Bydd gan ffermydd bump y cant o hyllygrwydd,

ond bydd unrhyw leihad mewn glaswelltir i fyny at y lefel hwn, mwy na thebyg yn digwydd i wneud lle i lwybrau fferm, wynebau caled neu adeiladau. Gan ragweld yr angen am y fath ddatblygiad, mae ffermwyr felly'n annhebygol o gymryd y risg o ddefnyddio'u lwfans ar gyfer troi glaswelltir yn goetir.

Roedd gan y PAC blaenorol gymal eithrio ar gyfer coedwigaeth. Gellid newid glaswelltir yn goetir ar yr amod fod yna enillion ecolegol. O dan y newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau Taliadau Uniongyrchol mae'n debygol y bydd yn fwy anodd troi glaswelltir yn goetir. Fel canlyniad, ac os bydd y diwygiadau'n cael eu pasio, byddai amcanion creu coetir Glastir yn dod yn amhosib eu gweithredu yn eu ffurf bresennol.

Yn y cyfamser, mater arall o bwys ynglŷn â'r cynigion presennol ar gyfer diwygio PAC ar ôl 2013 yw dilead arfaethedig Taliadau Incwm rhagweladwy os bydd ffermwyr yn penderfynu plannu coetir newydd. Heb amheuaeth byddai dileu'r opsiwn taliadau incwm rhagweladwy yn arwain at amharodrwydd i blannu coetir yng Nghymru. Mae gwerth cyfalafol tir yn disgyn y funud y caiff coetir ei blannu arno. Yn absenoldeb ffrwd barhaus o refeniw drwy daliadau incwm rhagweladwy yna byddai ffermwyr yn teimlo'n amharod i blannu coed.

Yn ddiweddar cynigiodd Arlywyddiaeth Denmarc destun diwygiedig sy'n adfer elfennau incwm rhagweladwy. Rhaid i hyn gael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru yn ei thrafodaethau gyda'r Adran Amgylchedd Bwyd a Materion Gwledig a'r Comisiwn Ewropeaidd gan y byddai hynny'n helpu Llywodraeth Cymru i wireddu ei thargedau plannu.

PREN A'I DDEFNYDD AR FFERM

Hendre Llwyn-y-Main, Llangernyw, gogledd Cymru

Mae gan Robin Crossley fferm ddefaid lwyddiannus sy'n tua 162 hectar o faint. Plannodd 10,000 o goed yng ngwanwyn 2009, y rhan fwyaf yn goed brodorol fel drain duon a drain gwynion, cyll, derw, ynn, bedw a gwern. Mae saethu'n rhan bwysig o fusnes y fferm ac mae'r coed yn chwarae rhan dyngedfennol wrth ddarparu cyfar. Ond nid ffesantod yn unig fydd i'w cael yno. Mae Robin wrth ei fodd y byddant yn darparu cynefin ar gyfer adar gwylt hefyd: y ji-binc, siglen, dryw, robin goch a'r fronfraith i enwi ond ychydig.

Yn ymyl y coed brodorol, mae Robin wedi plannu 4000 o goed Nadolig, fel cnwd gwerthu. Mae'r rhan fwyaf o'r coetir brodorol a blannwyd wedi'i ffurfio o gorneli caeau a lleiniau cul. "Rwyf yn ei weld fel cymynrodd i'r dyfodol", meddai. "Ni allai pobl oedd yn dod i lawr y ffordd o Lansannan weld dim 30 mlynedd yn ôl. Rwan maen nhw'n gweld tirwedd goediog, sy'n newid trwy'r flwyddyn."

Mae pren yn ffurfio rhan o fusnes y fferm hefyd. Mae coedlan 3 hectar sefydlog ar y fferm â choed syth da. Gall y rhain gael eu torri a'u melino llai na milltir i ffwrdd. "Bu inni ddefnyddio rhywfaint o'n coed ein hunain i adeiladu grisiau derw newydd ar y fferm," medd Robin. "Byddai wedi costio dros £2000 i brynu'r pren. Fe wnaethom ddefnyddio ein pren ein hunain ac mae'n edrych yn wych."

Mae gan y ffermdy dair stôf sy'n llosgi coed, ac mae brigau'r coed a dorrid ar gyfer coed defnydd yn fwy na digon

i ddarparu ei holl anghenion gwresogi. Ac meddai wrth gloi: "Rwy'n teimlo os caiff ffermwyr Cymru gymhellion hanner boddhaol i greu a rheoli eu coetiroedd, gan ddefnyddio arian Glastir, y byddan nhw'n ymateb."

Ffynhonnell: Coed Cadw: *Coed ar gyfer ffermydd yng Nghymru*, 2011.





YMAGWEDD ECONOMAIDD TUAG AT GREU COETIR

Fel yn achos Coetiroedd Gwell i Gymru, ariennir Glastir gan y Comisiwn Ewropeaidd ac mae'n cael ei reoli, felly, gan yr angen i gydymffurfio â rheoliadau cyfredol Datblygu Gwledig yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r rhain yn benodol berthnasol i wella'r amgylchedd a chefn gwlad drwy wella dulliau o reoli tir. Mae'r rheoliadau presennol yn dangos nad budd economaidd yw ffocws rhaglenni creu a rheoli coetir. Er enghraifft, mae rhywogaethau coedlan cylchdro byr sy'n tyfu'n gyflym wedi eu heithrio o'r cymorth grant. Yn swyddogol, 'iawndal' am gynhyrchu manteision amgylcheddol ar draul cynhyrchiant yw'r arian a dderbynnir o dan Glastir. O gofio y bydd coetiroedd Glastir o dan gontract am gyhyd â 15 mlynedd, prin y gellid disgwyl enillion economaidd arwyddocaol cyn diwedd y cyfnod hwn.

Fodd bynnag, mae'r rhai hynny sy'n gweithio gyda thirfeddianwyr - yn y Comisiwn Coedwigaeth, yn Llywodraeth Cymru ac fel Asiantwyr Coetir - yn cytuno bod rhesymeg economaidd yn sbardun allweddol yng nghydestun newid defnydd a rheolaeth tir. Mae yna felly densiwn arwyddocaol. Er bod canlyniadau economaidd yn mynd law yn llaw â choedwigaeth, yn achos ceisiadau am grantiau mae'n rhaid eu hystyried fel eilbeth ac ni allant gael eu

hybu'n egnïol gan Lywodraeth Cymru yn ystod bywyd y contract grant.

Er hynny, mae gan goetiroedd botensial economaidd, wedi ei gyfrifo mewn dull a fydd yn apelio at ffermwyr wrth iddynt wneud penderfyniadau ynglŷn â phlannu. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru eisoes yn ystyried y farchnad coed tân fel un a fydd yn tyfu yn y dyfodol, ac nid y lleiaf o'r rhesymau yw bod hwn yn weithgaredd nad oes angen llawer o sgiliau nac offer i'w gyflawni mewn cymhariaeth â chynhyrchion eraill. Mae Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru'n cydnabod y cyfleoedd a fedrai ddeilio o wella'r cyfuniad rhwng rheolaeth coetir a materion busnes a menter, gan ganiatáu i goedwigaeth ymgysylltu â buddiannau masnachol yn hytrach na thynnu i lawr arian datblygu gwledig. Cafwyd un cyfle o'r fath ym Mehefin 2012 yn lansiad Ynni Cymunedol Cymru, corff sy'n hybu prosiectau ynni adnewyddadwy yn y gymuned. Ar hyn o bryd mae ardaloedd o goed nad ydynt yn cael eu rheoli yn cynrychioli adnodd ddigyffwrdd a fedrai ddarparu ynni cynaliadwy i gymunedau. Gyda chynllunio a chefnogaeth addas, mae cyfle i'r adnodd hwn gyfrannu tuag at leihau tlodi ynni a hefyd leihau dibyniaeth ar farchnadoedd ynni rhyngwladol.



Ers cyhoeddi adroddiad ar gyfer Scottish Enterprise yn 2005 ar gyfleoedd masnachol gwresogi tanwydd coed¹⁵, gwnaethpwyd ymdrechion egnïol i hybu'r math hyn o wresogi ar sail cost effeithiolrwydd, manteision amgylcheddol defnyddio tanwydd carbon isel a gynhyrchir yn lleol, sicrwydd cyflenwad, glendid ac effeithlonrwydd.¹⁶ Mae Peter Davies, Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy Cymru yn argymhell ymagwedd sy'n hyrwyddo lleihad mewn allyriadau ochr yn ochr â dal a storio carbon.

NODIADAU

- 15 Robert Rippengal, *The Commercial Opportunities of Wood Fuel Heating in Scotland*, Scottish Enterprise, 2005.
- 16 Gweler gwefan Use Woodfuel Scotland: <http://www.usewoodfuel.co.uk>

COETIR BRODOROL NEWYDD AR FFERM LAETH: CYFUNIAD LLWYDDIANNUS

Fferm Penllwyncoch, Waungilwen, Llandysul



Mae Huw Williams yn rhedeg fferm laeth 60 hectar ger Llandysul yn Sir Gaerfyrddin gyda buches o 100 o fuchod godro a 100 o wartheg ifainc. Plannodd 1.5 hectar o goetir brodorol newydd yn 2010 gan ddefnyddio grant Coetiroedd Gwell i Gymru (BWW); derw, ynn, ceirios duon a bedw gyda chymysgedd o lwyni. Bydd yn plannu 0.53 hectar arall yn 2011 gan ddefnyddio Grant Creu Coetir Glastir.

Mae tua 2 hectar o goetir eisoes mewn bod yn Penllwyncoch ac mae Mr Williams yn gwneud defnydd da ohono'n barod. Mae e wedi teneuo'r goedlan dan y cynllun grant ac wedi gwneud defnydd o'r pyst derw hollt y mae wedi'u cynhyrchu. Torrodd ddarn o goed llarwydd tua dwy flynedd yn ôl, gan ddefnyddio'r coed ar gyfer pyst rheiliau a physt ffensio at ei ddefnydd ei hun. Mae'n defnyddio ei goed tân ei hun hefyd, gan arbed cannoedd o bunnoedd y flwyddyn.

O safbwynt Mr Williams, mae a wnelo plannu coed ar y fferm â'i gwneud yn fwy cynhyrchiol: "Rwyf wedi plannu coed i wneud y defnydd gorau o dir a fyddai fel arall yn gyfyng ei werth. Fe wnes i ddefnydd o grantiau i dorri nifer o'r coed oedd mewn bod. Os wyf am wneud hynny, mae'n bwysig plannu rhai newydd i gymryd eu lle."

Mae Mr Williams wedi cael Grantiau BWW a Chreu Coetir Glastir yn hawdd cael gafael arnynt, gan fod y gwaith papur yn cael ei drefnu i raddau helaeth gan Swyddog Creu Coetir sy'n cael ei ariannu gan y Comisiwn Coedwigaeth. "Bu Alison Wheeler, a fu'n gweithio ar fy ngheisiadau, yn wirioneddol gymwynasgar trwy gydol y broses", meddai.

"Fy nghyngor i ffermwyr eraill ydyw bod plannu coed yn rhywbeth sy'n werth ei ystyried. Mae'r cyfraddau grant sydd ar gael ar hyn o bryd yn dda iawn. Nid fy mod yn awgrymu bod ffermwyr yn plannu caeau cyfan neu ddarnau enfawr o dir. Ond bydd gan bron unrhyw fferm gorneli caeau a llefydd serth a fyddai'n addas, sydd o fawr ddim gwerth yn amaethyddol yn sicr!"

"Mae Grantiau Creu Coetir newydd Glastir yn fargen dda i ffermwyr gan eu bod yn cynnwys taliadau ychwanegol ar gyfer ffensys newydd. Felly mae creu rhimyn newydd o goetir nid yn unig yn darparu crwd o goed yn y dyfodol, mae'n darparu ffens newydd sy'n dal stoc hefyd."

Ffynhonnell: Coed Cadw, *Coed i ffermydd yng Nghymru*, 2011.

YR ASIANTWYR COETIR

Mae tua 70 o Asiantwyr Coetir proffesiynol yn gweithredu yng Nghymru. Mae tua ugain o'r rhain yn weithgar yn y sector preifat a nifer tebyg yn gweithredu drwy Coed Cymru yn y sector cyhoeddus, yn bennaf fel cynghorwyr i awdurdodau lleol. O dan gynllun presennol Creu Coetir Glastir bydd llawer o Asiantwyr Coetir preifat yn gweithredu fel Swyddogion Prosiect, fel pwynt cyswllt rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru ar y naill law, a ffermwyr a thirfeddianwyr eraill ar y llaw arall.

Mae gan Asiantwyr Coetir bersbectif neilltuol, hanner ffordd rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru a'r thirfeddianwyr a'r gwahanol gyrff amgylcheddol sy'n gyfrifol am weithredu polisi. Ar gyfer yr astudiaeth hon cynaliasom gyfweiliadau â sampl o bedwar Asiant yn gweithio yn y sector preifat mewn gwahanol rannau o Gymru.¹⁷

Roeddent ill pedwar mwy neu lai'n gytûn eu barn ar y manteision a fedr ddeillio o ehangu'r tir a orchuddir gan goetir yng Nghymru - mwy o bren, gweithgaredd economaidd, dal a storio carbon, a bioamrywiaeth - ond yr oeddent i gyd yn amheus eu hagwedd tuag at y targed 100,000 hectar. Credai'r mwyafrif y gallai targed ar gyfer galluogi mesur cynnydd fod yn ddefnyddiol petai polisiâu yn eu lle i'w gyflenwi. Fodd bynnag, yr oeddent yn amheus ai dyna'r sefyllfa ar hyn o bryd. Fel y dywedodd Neill Scott, o Gasnewydd yn Sir Benfro:

“Mae'r targed 100,000 hectar yn ffansiol o gofio'r rhwystrau a osodwyd ar ddefnydd tir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, fel y dangoswyd ar fapio Creu Coetir Cymru. Mae'r targed hwn yn adlewyrchu'r cyngor gwael iawn sy'n cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru oddi wrth weision sifil.”

Meddai David Edwards, o Lanymddyfri:

“Dwi ddim yn credu bod y targed 100,000 hectar yn agos at yr hyn sy'n realistig gyda'r polisiâu a'r cymhellion presennol.”

Roedd y pedwar Asiant yn glir eu barn am agweddau ac ymatebion ffermwyr i'r ymdrechion i'w perswadio i blannu mwy o goetir. Siaradodd David Edwards ar ran pob un ohonynt pan ddywedodd:

“Ar y cyfan mae ffermwyr a thirfeddianwyr eraill yn amharod i droi tir amaeth da yn goetir. Mae hyn yn arbennig o wir am ffermwyr â'u teuluoedd wedi gweithio dros genedlaethau i glirio a gwella tir ar gyfer amaeth. Lle gellir cyflwyno dadl economaidd o blaid creu coetir, wedyn mae ffermwyr a thirfeddianwyr yn llawer mwy agored i'r syniad o greu coetir.”

Dywedodd Andrew Bronwin mai'r peth pwysig oedd peidio rhoi rhwystrau yn ffordd ffermwyr oedd yn ystyried plannu coetir:

“Nid yw'r mapiau goleuadau traffig a'r fiwrocratiaeth gyffredinol yn helpu.”

Meddai Neill Scott:

“Ffermwyr yw ffermwyr, nid perchnogion coetir. Bydd llawer yn amharod i blannu ar dir wedi ei wella. Y gwir yw, fod gostyngiad o £10,000 yr hectar mewn gwerth tir unwaith y caiff coed eu plannu arno. Dylai iawndaliadau adlewyrchu hyn. Mae'r rhan fwyaf o ffermwyr yn ymddangos yn hapus i blannu ar dir heb ei wella. Fodd bynnag nid yw Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n caniatáu plannu ar unrhyw dir heblaw tir wedi ei wella.”

Nid oedd un o'r Cynllunwyr Rheolaeth yn credu y byddai'r cynllun Glastir yn llwyddo i berswadio ffermwyr a thirfeddianwyr eraill i greu mwy o goetir. Dywedodd Neill Scott y byddai'n “aneffeithiol” ac ym marn Andrew Bronwin, “ymylol” fyddai. Meddai David Edwards:

“Nid yw Glastir wedi bod yn boblogaidd gyda ffermwyr a thirfeddianwyr ac mae clywed y gair 'Glastir' yn creu adwaith negyddol ymhlith llawer o ffermwyr. Mae argaeledd tir o dan y system 'golau traffig' yn rhwystr difrifol i greu coetir.”

Ychwanegodd Mark Potter:

“Os na chaiff ei ail-frandio gan ddangos mwy o ymwybyddiaeth o anghenion masnachol bydd ei effeithiolrwydd yn gyfyng.”

Meddai Neill Scott:

“Mae dymuniad Gweinidogion i gael targed a rhoi'r

gefnogaeth ariannol yn ei lle yn ardderchog. Fodd bynnag, mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn erbyn plannu oni bai ei fod yn rhywogaeth lydanddail ar dir wedi ei wella sy'n ddull aneffeithlon o ddefnyddio tir da.”

Meddai David Edwards:

“Ar yr olwg gyntaf mae strategaeth Coetiroedd i Gymru'n rhesymegol. Fodd bynnag, yn ymarferol nid yw'n cael ei ddilyn. Dim ond rhai agweddau sy'n cael eu gweithredu pan fydd llwyddiant y strategaeth yn dibynnu ar gyfuniad o weithrediadau. Er enghraifft, mae gorchudd coetir cynhyrchiol yn cael ei leihau fel canlyniad i adferiad rhostir a chynefinoedd, ac amrywiad rhywogaethau. Mae'r rhain yn amcanion canmoladwy ond nid yw plannu ad-daliadol, fel sy'n ofynnol gan y strategaeth yn cyd-fynd â'r colledion.”

NODIADAU

- 17 David Edwards o UPM Tihill, Llanymddyfri; Neill Scott o Forest Management Cymru, Trefdraeth Sir Benfro; Mark Potter, o Abersenny Ltd., Y Grysmwnt Abergafenni; ac Andrew Bronwin, o Andrew Bronwin & Co, Llandrindod.





BARN TIRFEDDIANWYR

Tra bo'r gwahanol grwpiau sy'n berchen tiroedd a fydd yn gyfrifol am weithredu strategaeth coedwigaeth Llywodraeth Cymru'n gefnogol i'r angen am fwy o goed a'r manteision y gellir eu hennill, maent yn parhau yn amheus am yr hyn y gellir ei gyflawni. Mae hyn yn arbennig o wir yn eu hagwedd tuag at y targed 100,000 hectar. Er enghraifft, disgrifwyd y targed gan Bernard Llewellyn, Cadeirydd Bwrdd Materion Gwledig NFU Cymru fel un "afrealistig", yn syml iawn oherwydd prinder y tir sydd ar gael a'r lleihad yng ngwerth cyfalafol y tir y plennir coed arno.

Dywedodd Andrew Gurney, Swyddog Polisi Defnydd Tir yr FUW bod cael targed yn ddefnyddiol am ei fod yn rhoi rhywbeth i anelu ato. Fodd bynnag, yr oedd yntau hefyd, yn cwestiynu p'un ai oedd 100,000 hectar yn gyraeddadwy ai peidio:

"Nid yw'r record hyd yn hyn yn rhyw galonogol iawn. Mae llai na 1,000 o hectarau wedi eu plannu yn nwy flynedd gyntaf cynllun Glastir - sef dim ond 1 y cant o'r targed. Wrth gwrs, wrth i amser fynd yn ei flaen gallai hyn wella. Bydd amom angen ymgyrch i annog ffermwy'r a thirfeddianwyr eraill i fanteisio ar y cyfleod o dan Glastir. Mae'n werth nodi bod yna lawer o goetir yn bodoli ar hyn o bryd nad yw'n cael ei reoli'n effeithiol. Mae llawer o goed a blannuwyd dros yr 20 mlynedd diwethaf heb gael unrhyw sylw. Mae angen dod â'r rhain yn ôl i'r gyfundrefn reoli briodol. Byddai hyn yn dod â manteision economaidd. Ond, wrth gwrs, ni fydd yn cyfrannu at y targed 100,000 hectar."

Awgrymodd Nicholas Wynne, Rheolwr Ymgynghorol gydag Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru bod y targed yn "ffigwr crwn hyfryd", tra'i disgrifwyd gan Ben Underwood, Cyfarwyddwr Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru fel un "afrealistig a mympwyol":

"Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed heb asesu mewn gwirionedd a ydyw'r sbardunau economaidd yn bodoli i'w gyflawni. Ar hyn o bryd nid ydynt, ac ers dilead Coetiroedd Gwell i Gymru mae'r gefnogaeth i goedwigaeth fasnachol wedi lleihau."

Dywedodd Celia Thomas, Swyddog Coetiroedd gyda Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ond a oedd yn siarad ar ran Parciau Cenedlaethol Cymru:

"Gosodwyd y targed heb sicrhau ymgyfraniad effeithiol un o'r ddau bartner allweddol na thirfeddianwyr ac ar adeg pan yr oedd newidiadau hefyd yn cael eu cynnig drwy'r rhaglen Cymru Fyw, sydd wedi golygu ail-strwythuro'n gyfan gwbl y cyrff a fydd yn ymgyfrannu yng nghyflawniad y targed hwn. Nid yw'r raddfa amser na graddfa'r cynnig wedi eu hystyried mewn perthynas â'r newidiadau hyn. Gyda diwygiad PAC hefyd ar y gorwel, mae'n annhebyg yr ystyrir newidiadau mawr yn nefnydd tir gan ffermwy'r a thirfeddianwyr, a fyddai'n teimlo'r

angen i edrych o hirbell wrth ystyried coed a choetir yn hytrach na chylchdro blynyddol crydio sy'n fwy hyblyg."

Roedd yna farn glir am agweddau ffermwyr a sut i ddylanwadu arnynt. Meddai Ben Underwood:

"I fod yn onest nid yw plannu coed ar radar y rhan fwyaf o ffermwyr a thirfeddianwyr. Pam ddylai fod? Mae'r galw am fwyd mor fawr ag erioed ac mae prisiau nwyddau ar y cyfan yn dda. Nid yw tynnu tir allan o gynhyrchu bwyd er mwyn creu coedwig yn gynnog profidiol."

Roedd Andrew Gurney, o'r FUW yn cytuno. "Nid amharodrwydd ffermwyr i blannu coetir yw'r brif ystyriaeth, meddai. Mewn gwirionedd nid ydyw'r rhan fwyaf ohonynt hyd yn oed wedi meddwl am y fath beth":

"Ar hyn o bryd mae ffermwyr yn cael enillion da am gynhyrchu cig oen ac eidion. Dyna ffocws eu sylw a'u hymdrechion. Mae ffermwyr yn dilyn y prisiau. Er enghraifft, dair blynedd yn ôl roedd ŵyn yn gwerthu am £30 a £40 y pen tra'u bod heddiw rhwng £80 a £90. Felly, os ydyw ffermwyr i gael eu perswadio i ddargyfeirio peth o'u hamser a'u tir i blannu coed mae'n rhaid sicrhau eu bod yn derbyn iawndal realistig i'w osod yn erbyn eu costau a'u hincwm rhagweladwy. Ac wrth gwrs, prosiect tymor hir yw coed sydd ag angen 30 neu 40 mlynedd cyn y gellir sylweddoli incwm uniongyrchol. Yn y cyfamser, gellid bod wedi defnyddio'r tir hwnnw fel tir pori."

Dywedodd Tom Packham, Rheolwr Busnes Ystadau Dŵr Cymru bod ffermwyr tenant mewn sefyllfa arbennig o anodd wrth ystyried a ddylent ymddiddori mewn coedwigaeth:

"Nid oes gan ffermwyr tenant ddigon o sicrwydd daliadaeth i ymhél â choedwigaeth. Eu landlordiaid fydd y rhai fydd yn ei weithredu, a chyn hynny bydd rhaid perswadio tenantiaid i

roi'r gorau i dir gan eu landlordiaid. I ffermwyr sy'n berchen eu ffermydd rhaid i'r gorswm crynswth (net o'r grant) yr hectar o goedwig, o'r fluyddyn gyntaf, fod yn gyfartal â'r gorswm crynswth (net o'r grant) yr hectar o goetir a gollwyd, dyweder, ar ddefaid. I landlordiaid bydd rhaid i'r enillion net ar goedwigaeth fod yn fwy na'r rhent o ffermio neu bori."

Daeth Nicholas Wynne, o Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru i'r casgliad canlynol:

"Os yr ydym yn mynd i roi arwydd £ wrth y newid, yna mae'n mynd i fod yn anodd iawn perswadio nifer arwyddocaol o ffermwyr i symud i faes coedwigaeth. Yr unig ffordd fydd drwy eu darbuyllo y byddant yn ennill amrediad cymysg o fanteision drwy blannu coed - yn amrywio o greu lleiniau o lochesau i ennill ffynhonnell rad o danwydd a gwella bioamrywiaeth. Does neb yn mynd i newid yn unig am fod y llywodraeth wedi datgan targed. Bydd cymhellion ariannol, yn arbennig gostau cyfalaf, yn allweddol."

Meddai Andrew Gurney, o'r FUW:

"Nid yw'r newidiadau cyson mewn amaeth-amgylchedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn ddefnyddiol. Bu newidiadau i'r cynllun Glastir bron o wythnos i wythnos pan yr oedd yn cael ei ddatblygu. Fel canlyniad crëwyd ansefydlogrwydd nad yw'n rhoi hyder i'r rhai a allai fod yn ystyried plannu coetiroedd. O'r cychwyn felly ni wnaeth argraff dda ar ffermwyr sy'n negyddol eu hamgyffrediad ohono. Y gwir yw, bod Glastir wedi cael dwy flynedd o sylw negyddol yn y wasg. Roedd cynllun blaenorol Tir Gofal yn well oherwydd bod ei daliadau'n cael eu gwneud yn brydlon am waith a wnaethpwyd. O dan Glastir mae'r taliadau'n cael eu gwneud am incwm rhagweladwy a gallai gymryd tair i bedair blynedd cyn i gostau'r gwaith a wnaethpwyd gael eu hadennill."

Yr oedd cytundeb cyffredinol y gellid gwneud cefnogaeth i blannu coed yn fwy effeithiol petai'n cael ei wneud mewn ffyrdd oedd yn ei gyfuno ag arferion ffermio prif ffrwd. Dywedodd Nicholas Wynne y dylai taliadau Glastir gael eu ffurfio mewn dulliau oedd yn cynnwys rheolaeth coetir fel rhan o ddiwylliant rheolaeth fferm. Awgrymodd Bernard Llewellyn, o'r NFU, y dylai plannu gael ei hyrwyddo mewn dulliau oedd yn hwyluso technegau ffermio modern, gan roi trin gwrychoedd fel enghraifft. Fel y dywedodd:

“Mae angen ystyried gwrychoedd nid yn unig yn nhermau eu cynefin a chyfleodd bioamrywiaeth ond yn nhermau'r enillion economaidd a fedr ddeillio o drin coedlannau a chynhyrchu pren.”

Meddai Andrew Gurney, o'r FUW:

“Byddai dangos manteision coedwigaeth i ffermwyr mewn dull effeithiol drwy enghreifftiau ymarferol o fywyd go iawn ac astudiaethau achos yn ddefnyddiol. Ar hyn o bryd, i lawer o ffermwyr, theoretig ar y cyfan yw'r manteision y gallent eu cael drwy blannu coed ar eu tir.”

Dywedodd Celia Thomas, o Barciau Cenedlaethol Cymru, y dylai'n dulliau o gyflwyno coed i mewn i'n tirwedd fod yn fwy creadigol:

“Yn hytrach na meddwl am blannu ardaloedd eang o goed newydd trwchus dylem fod yn edrych ar ddulliau o gael coed i mewn i'n hardaloedd gwledig sy'n dod ag amryfal fanteision. Felly byddai amrywiaeth o goedlannau coed tân, nifer da o wrychoedd, coedwigoedd cysgodol, parciau neu wasgariad o goetir pori yn well na cholli chwe chyfer o dir cynhyrchiol ar eich daliad 100 cyfer.”

Awgrymodd y dylem fod yn meddwl am y niferoedd o goed a blannwyd, yn hytrach nag ardaloedd o goetir. Ar hyn o bryd

roedd plannu coed drwy gymorth grant yn seiliedig ar blannu tua 2,000 o goed yr hectar, oedd o bosib yn ormod.

Efallai y byddai'n fwy effeithiol i roi i ffermwyr darged o niferoedd o goed i'w plannu'n hytrach na'r maint o dir i'w orchuddio. Petai cymorthdaliadau'n seiliedig ar nifer y coed a blannwyd yna byddai ffermwyr yn cael eu hannog i weld plannu fel gweithgaredd nad oedd yn ymwneud â cholli tir da cynhyrchiol. Byddai'n haws wedyn i weld plannu fel gweithgaredd oedd yn cyfrannu tuag at incwm fferm:

“Yn lle plannu 12.5 cyfer gellid ei gwneud yn ofynnol i ddaliad 200 cyfer blannu 500 coeden, pump am bob dau gyfer. Dim ond 25 coeden fyddai eu hangen ar gae deg-cyfer a gallent gael eu gwasgaru o fewn gwrychoedd, mewn corneli, efallai fel llain gysgodol neu ar ymyl dŵr. Wedi eu gwasgaru i ganiatáu lledaeniad o ddeng metr ar ôl aeddfedu byddai'r un maint o ardal yn cael ei gwireddu. Yn eironig gallai hyn hefyd fod yn fwy fforddiadwy. Yn y modd hwn galleml ennill mwy a mwy o goetir pori a dulliau eraill amryfal o ddefnyddio tir fel perllannau pori. Hefyd gellid cefnogi systemau amgen fel y gerddi coedwig a'r permaddiwylliant sydd mor boblogaidd ar hyn o bryd.”

Yn nhermau polisi cyffredinol roedd cefnogaeth eang i gynigion a gyflwynwyd yn strategaeth Coetiroedd i Gymru. Fodd bynnag, roedd coedwigaeth wedi dioddef oherwydd ei fod yn cael ei weld fel gweithgaredd ar wahân i ffermio. Peth dymunol fyddai gweld y ddau ddiwydiant yn cael eu gweinyddu o dan faner sengl. Eto o dan y trefniadau arfaethedig ni allai hyn ddigwydd. Byddai Amaeth a Glastir yn aros o fewn Llywodraeth Cymru, a gweinyddiaeth coedwigaeth yn cael ei ymgorffori yn y Corff Amgylchedd Sengl. Fel y dywedodd Bernard Llewellyn o'r NFU:

“Mae angen datrys materion rhyngadrannol a chyfathrebu cyn gynted â phosib.”



Y LOBÏWYR AMGYLCHEDDOL

Efallai nad yw'n beth syn bod gan sefydliadau lobïo ar y cyfan agweddau mwy positif tuag at y targed o blannu 100,000 hectar ychwanegol o goetir yng Nghymru na'r rhai hynny a fydd yn gyfrifol am ei weithrediad. Ar yr un pryd maent yn feirniadol o lawer o'r polisiâu sydd ar gael ar hyn o bryd i helpu i gyrraedd y targed ac mae ganddynt deimladau cryf am y dulliau sydd eu hangen i'w newid. Wrth asesu dyfodol y sector cynhaliwyd cyfweiliadau gyda chynrychiolwyr y sefydliadau canlynol:

Mike Townsend, ymgynghorydd gyda Coed Cadw, sy'n anelu at weithio gydag eraill i blannu mwy o goed ac amddiffyn coetiroedd brodorol.

David Jenkins, Cyfarwyddwr Coed Cymru sy'n ymgyrchu dros gynyddu ymwybyddiaeth o goetiroedd brodorol.

Becky Hulme, Swyddog Prosiect gyda Tir Coed - cynghrair o sefydliadau gwledig i hybu cyfleusterau sy'n ymwneud â choetir.

Raoul Bhambral, Swyddog Adfocatiaeth gyda Cyswllt Amgylchedd Cymru - corff mantell sefydliadau amgylcheddol a gwledig anllywodraethol yng Nghymru.

Mike Wood, Swyddog Polisi Coedwigoedd y DU, ac Arfon Williams, Rheolwr Cefn Gwlad gyda RSPB Cymru.

Ei eu bod yn gyffredinol o blaid y targed 100,000 hectar, cymredolwyd eu hagwedd gan eu hymwybyddiaeth o'r anhawster o'i wireddu:

“O bersbectif dosbarthu defnydd tir mae'r targed yn realistig yn yr ystyr bod tir ar gael y gellid plannu coed arno. Y cwestiwn anodd yw a ydyw'n realistig o safbwynt cymdeithasol a diwylliannol o gofio cyd-destun hanesyddol coedwigaeth yng Nghymru, strwythur ffermio a thraddodiadau defnydd tir. Mae angen adeiladu'r ffactorau hyn i mewn i'r naratif sy'n cefnogi'r targed ac i'r ystyriaeth o sut y caiff ei gyflwyno yn y dirwedd, na fydd o reidrydd yn cael ei gynrychioli gan fodel plannu traddodiadol coedwigaeth, ond yn fwy gan gyfuniad o goed a choetiroedd llai fel rhan o'r dirwedd a ffermir.”

Dyweddodd Tir Coed ei bod yn ddefnyddiol i gael targed i hyrwyddo'r symudiad tuag at wireddi gorchudd coetir ychwanegol ond rhybuddiasant yn erbyn ail-redeg plannu conwydd isel eu gwerth:

“Nid yw'r targed yn realistig o gofio lefelau presennol plannu newydd. Mae angen anogaeth holistig a chymhellgar i droi'r targed yn realiti.”

Trawodd Coed Cymru nodyn gwahanol:

“Mae'r targed yn realistig cyn belled â'n bod yn cydnabod y bydd y rhan fwyaf o'r cynnydd yn cael ei ennill drwy gytrefu naturiol, proses sydd wedi gweld coetir brodorol yn dyblu yng Nghymru ers 1980. Efallai nad yw'r coetir sy'n deillio o hyn yn gyffelyb i blanhigfeydd yr 20fed ganrif ond byddant yn ateb y diben yn llawer gwell.”

Dywedodd yr RSPB:

“Gallai'r targed fod yn anffwyddiol os bydd yn arwain at arferion coedwigaeth anghynaliadwy, yn ogystal â dargyfeirio sylw oddi wrth wella bioamrywiaeth a gwerth coetiroedd cyfredol i'r cyhoedd.”

Roedd Cyswllt Amgylchedd Cymru'n pryderu na fyddai gofynion bioamrywiaeth yn cael blaenoriaeth mewn unrhyw gynlluniau i ehangu coetiroedd:

“Mae'n hanfodol bwysig bod unrhyw gynnydd yn cael ei weithredu mewn dull sensitif, gyda'r goeden iawn yn y lle iawn; hynny yw, mae angen system i sicrhau nad yw plannu coed yn cael ei ariannu mewn lleoliadau lle mae'n debygol o niweidio neu ddiraddio cynefinoedd bywyd gwylt a rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, a dylai fod llawer mwy o gefnogaeth i blannu rhywogaethau brodorol na rhai egsotig. Buasem yn mynd ymhellach, drwy osod dyblu ardal coetir brodorol yng Nghymru fel amcan tymor hir. Gellir gweld coetir brodorol fel dull delfrydol o ddefnyddio tir ar gyfer datblygu cynaliadwy, gan ddod â llawer o fanteision amrywiol yn nhermau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.”

Cytunodd llawer o'r ymatebyddion y gellid, drwy ymagwedd briodol, annog ffermwyr i blannu mwy o goed. Fel y dywedodd David Jenkins, o Coed Cymru:

“Mae pob ffermwr dwi'n eu hadnabod eisiau plannu rhai coed. Y cyfan sy'n rhaid i ni ei wneud yw hwyluso'u gwaith a sicrhau bod eu hymdrechion cynnar yn llwyddiannus. Ni fyddant yn ildio eu tir gorau ac ni ddylem eu hannog i wneud hynny. Mae polisi diweddar wedi dymuno gweld coed yn disodli amaeth. Mae hon yn ymagwedd anghywir. Mae gan bob fferm ardaloedd lletchwith mewn pantiau, wrth ymyl nentydd ac o gwmpas adeiladau lle byddai coed yn ffynnu ac yn dod â manteision i'r ffermwr, i'r cyhoedd yn gyffredinol ac i'r amgylchedd. Yn aml mae'r rhain yn ardaloedd bychain, sy'n syrthio o dan drothwy'r grantiau presennol. Mae'r angen i ddal dwylo yn y cyfnodau cynnar yn aml yn cael ei anwybyddu. Mae plannu coed yn gystudd cynyddol, sy'n hynod o heintus. Mae'r cwbl yn dibynnu ar lwyddiant cynnar.”

Dywedodd Mike Townsend, o Coed Cadw:

“Yn draddodiadol, negyddol fu agwedd ffermwyr tuag at goedwigaeth. Mae hyn yn adlewyrchu'r model coedwigaeth graddfa-eang, a welir yn aml fel defnydd tir amgen a gelyniaethus i ffermio. Mae angen newid y model creu coetir i un lle mae coed a choetir yn cael eu cyfuno â systemau ffermio mewn dulliau sy'n cynorthwyo hwsmonaeth a chynhyrchiad drwy helpu ffermwyr i addasu i newid hinsawdd a ffactorau eraill sy'n rhoi pwysau ar ffermio. Mae ffermwyr Pontbren ym Mhowys yn rhoi esiampl o'r math o fodel sy'n fwy tebygol o gael ei dderbyn gan ffermwyr yn gyffredinol.¹⁸ Mae ein model creu coetir ni yng Nghymru wedi ei seilio ar egwyddor ymdoddi i mewn i systemau ffermio, yn hytrach na'u disodli'n gyfangwbl.¹⁹”

“Mae yna dystiolaeth anecdotal cryf sy'n dangos bod ffermwyr, ar ôl dechrau plannu coed, yn debygol o barhau i wneud hynny. Yr her, felly, yw darganfod ffyrdd o'u cael

i furw ati. Yn hyn o beth, credun bod angen difrifol am gynllun mwy syml sy'n rhoi cymorth deniadol i ffermwyr blannu ardaloedd bach o goetir o fewn y dirwedd sy'n cael ei ffermio, llai na'r rhai sydd ar hyn o bryd yn cael eu caniatáu o dan gynllun Creu Coetir Glastir, ac mewn lleiniau culach, gyda chyn lleied â phosib o fiwrocratiaeth a ffwdan."

Cyfeiriodd Raoul Bhambral, o Cyswllt Amgylcheddol Cymru, hefyd at hyn, gan annog Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth i edrych eto ar y terfynau maint ardal ar gyfer cymhwyster i dderbyn grantiau Glastir, a'u lleihau:

"Tra bo cynllun Creu Coetir Glastir yn rhoi grantiau ar gyfer plannu o dan amgylchiadau arbennig, ardaloedd o dir dros 0.25 hectar (mae'r terfyn hyn i godi i 0.5 yn 2013) a lleiniau cysgodol dros 12 metr o led, ychydig iawn o gefnogaeth sydd i'w gael ar gyfer plannu ardaloedd llai o goed. Mae hwn yn wendid allweddol ac mae gennym gyfle gwirioneddol yn awr i newid y cynllun i gefnogi plannu ardaloedd llai. Y ffordd orau o berswadio ffermwyr i blannu coed ar raddfa ehangach yw drwy eu hannog i ddechrau drwy blannu ar raddfa lai."

Rhestrodd yr ymatebyddion y rhwystrau canlynol fel rhai sy'n amharu ar blannu mwy o goed:

- Y map cyfleoedd plannu golau-traffig, sy'n gorfodi ymagwedd or-ofalus tuag at greu coetir newydd, hyd yn oed mewn ardaloedd bach o goed brodorol.
- Bygythiad i daliadau incwm rhagweladwy yng Nghynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru.
- Y cynnydd ym mhrisiau bwyd ac ansicrwydd am ddyfodol cefnogaeth y llywodraeth i amaeth.

Meddai Coed Cadw:

"Hoffem weld cynllun amaeth-amgylchedd a fyddai'n annog ffermwyr ar draws Cymru i efelychu enghraifft cynllun Pontbren ac i edrych ar goed a choetir fel rhan o dirwedd cynhyrchiol fferm. Byddai hyn yn cynnwys hyrwyddo manteision niferus coetir pori. Byddai'r fath gynllun yn cyd-fynd ag arferion ffermio, gan annog ffermwyr i wneud yr hyn sydd yn ei hanfod, yn y lle cyntaf, o fudd iddynt hwy."

NODIADAU

- 18 www.pontbrenfarmers.co.uk/
- 19 www.woodlandtrust.org.uk/en/planttrees/help-advice/

GOBLYGIADAU POLISI

- 1— Os ydyw'r targed 100,000 hectar i'w wireddu, bydd angen plannu ardaloedd o dir ymylol heb ei wella ar draws Cymru. Dyma'r ffriddoedd lle mae'r ucheldir a'r iseldir yn cwrdd. Bydd hyn yn gofyn am ymagwedd fwy holistig tuag at y tensiwn annatod rhwng gofynion cynaliadwyedd ar yn un llaw a chadwraeth ar y llaw arall. Mae angen cydnabod y bydd y coetiroedd newydd yn y ffriddoedd yn creu cynefinoedd newydd a chyfleodd bioamrywiaeth newydd.
- 2— Dylid ail-ymweld â'r mapio goleuadau traffig yng Nghymru er mwyn ennill gwell cytbwysedd rhwng galwadau cynaliadwyedd – sydd i'w gynyddu yn sgil ehangu coetiroedd i orchuddio ardal 100,000 hectar – a'r pwyslais mwy ar hyn o bryd ar gadw cynefinoedd sy'n bodoli eisoes.
- 3— Yng nghyd-destun lliniaru newid yn yr hinsawdd dylid rhoi pwyslais ar leihad CO₂ drwy ddefnydd economaidd o bren, ochr yn ochr â dal a storio carbon.
- 4— Mae ffermwyr yn fwy tebygol o fynd ati i blannu coed os cânt eu perswadio y gellir ei ymdoddi i mewn i'w diwylliant ac arfer ffermio cyffredinol, yn hytrach nag fel gweithgaredd ar wahân.
- 5— Ailgalibro targed coetir Cymru i gynnwys ffocws ar y nifer o goed a blennir yr hectar ochr yn ochr â'r targed sy'n nodi'r nifer o hectarau i'w plannu. Gallai hyn gymeradwyo'r nifer o goed yr hectar a fyddai'n maximeiddio'r cysylltiad rhwng rheolaeth coetir a'r diwylliant ffermio.
- 6— Ail-strwythuro Glastir i bwysleisio ymagwedd holistig tuag at ffermio a rheolaeth coetir. Pwysleisio atyniad enillion economaidd ochr yn ochr â hwb drwy gyfrwng taliadau Glastir. Dylid caniatáu i'r tir sydd ar hyn o bryd o fewn y rhaglen flaenorol, Tir Gofal, adael yn gynnar er mwyn cael ei gynnwys yn y cynllun Creu Coetir Glastir.
- 7— Dylid lleihau'r 0.25 hectar presennol sydd ei angen i fod yn gymwys i dderbyn grant Glastir, sy'n mynd i gael ei gynyddu i dorbwynt o 0.5 hectar. Byddai hyn yn annog mwy o ffermwyr i fynd ati i ymddiddori yn rheolaeth coetir.
- 8— Mae angen mwy o gefnogaeth i ffermwyr wrth iddynt osod at ei gilydd gynigion plannu coetir.
- 9— Dylid ystyried darganfod mwy o ffyrdd o gefnogi ffermwyr i ymgymryd â choedlannau cylchdro byr fel ffordd o annog datblygiad ffynhonnell ynni adnewyddadwy, a thrwy hynny leihau allyriadau carbon a hefyd annog cyfuno rheolaeth coetir a ffermio prif ffrwd.
- 10— Y Corff Amgylcheddol Sengl yw'r sefydliad a ddylai fod yn bennaf gyfrifol am hyrwyddo lledaeniad coetir Cymru.